



**Cofnodion Bwrdd TrC**

**21 Hydref 2021**

10:00 - 16:30

Lleoliad – Llys Cadwyn, Pontypridd ac ar-lein

---

**Yn bresennol:**

Scott Waddington (Cadeirydd); Alun Bowen; Heather Clash; Vernon Everitt; Sarah Howells; Nicola Kemmery; Alison Noon-Jones; a James Price.

Yn bresennol: Natalie Feeley (eitemau 1-3); Leyton Powell (eitemau 1a - 2c); a Jeremy Morgan. Sesiwn diweddarau ar weithrediadau (Rhan B): Geoff Ogden; David O'Leary; Lewis Brencher; Lisa Yates; Lee Robinson; a Dave Williams.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**Rhan A – Cyfarfod Llawn o'r Bwrdd**

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Dim.

**1b. Hysbysiad Cworwm**

A'r cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod ar agor.

**1c. Datganiadau o Ddiddordeb**

Ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu'r Cyfarfod Blaenorol**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 fel cofnod gwir a chywir.

Nodwyd y log gweithredoedd.

**2a. Diogelwch**

Gall y misoedd nesaf fod yn heriol o ran annwyd, ffliw, COVID a dyddiau byrrach. Mae angen cadw llygad ar les cydweithwyr.

**2b. Cwsmeriaid**

Bu digwyddiad diweddar o berson ifanc yn teithio ond heb actifadu ei docyn gan arwain at ddirwy. Nid oedd yr unigolyn yn ymwybodol bod yn rhaid iddo actifadu ei docyn ac roedd yn meddwl ei fod yn ddilys pe bai'n cael ei brynu. Cytunodd y Bwrdd bod angen cyfathrebu negeseuon yn well am systemau prynu a dilysu tocynnau.

## 2c. Perfformiad diogelwch

Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod

Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau ar gyfer Grŵp TrC yn ystod y cyfnod diwethaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ailadeiladu ac adnewyddu'r ymagwedd strategol at les meddwl gyda phwyslais ar wasanaethau a chymorth. Mae hyn yn cynnwys ailgysylltu SWAG, gweithio gyda chyflenwyr iechyd galwedigaethol a datblygu pecyn cymorth rheolwyr rheng flaen. Mae is-grŵp Grŵp Cydgysylltu Tactegol (TCG) wedi'i leihau wrth i'r busnes gamu i mewn i BAU. Roedd y grŵp yn llwyddiannus trwy gydol y pandemig a phrofodd y broses frys yn llwyddiannus.

Roedd perfformiad diogelwch Rheilffyrdd TrC dros y cyfnod diwethaf yn gadarnhaol. Mae'r Mynegai Marwolaethau wedi'i Bwysoli yn parhau'n isel ar gyfer digwyddiadau gweithlu a digwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â'r gweithlu. Mae ymosodiadau corfforol yn dal i fod yn broblem ond bu gwelliant gyda dim ond tri digwyddiad wedi'u cofnodi yn ystod y cyfnod diwethaf, gyda dau ohonynt wedi arwain at amser yn cael ei golli. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys dau ymosodiad llafar gan gynnwys rhywun yn poeri ar aelod o staff ac un digwyddiad yn deillio o daflu gwrthrych.

Bu un ddamwain gwaith seilwaith yn ystod y cyfnod na arweiniodd at amser yn cael ei golli. Cynhaliodd yr ORR adolygiad ganol mis Medi gyda'r adroddiad yn nodi'r angen am rai gwelliannau nad ydynt yn hanfodol.

Mae Mynegai Marwolaethau Pwysoledig Pullman Rail wedi cynyddu oherwydd sawl digwyddiad, gyda rhai ohonynt wedi arwain at amser yn cael ei golli. Mae mesurau lliniaru wedi'u nodi drwy raglen wella barhaus ynghyd â darparu adnoddau mwy uniongyrchol gan Grŵp TrC. Nododd y Bwrdd, oherwydd gwelliannau mewn adrodd, ei bod yn debygol y bydd y ffigurau'n cynyddu cyn y byddant yn gostwng.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad diogelwch. Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.

## 3a. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

Hysbyswyd y Bwrdd fod y gwaith o newid amserlen mis Medi 2021 wedi'i gyflawni i raddau helaeth yn ddiraffferth a bod y cyhoeddiad cyhoeddus wedi cael derbyniad da. Roedd y newidiadau'n cynnwys adfer dau drên yr awr i Flaenau'r Cymoedd, ac roedd angen cryn dipyn o drafod gyda chynrychiolwyr gyrwyr ar gyfer hyn. Hysbyswyd y Bwrdd mai'r her fwyaf y tu allan i reolaeth Trafnidiaeth Cymru yn y maes hwn yw bod Network Rail wedi cwblhau gwaith trac ar amser ac wedi sicrhau cyllid gan yr Adran Drafnidiaeth. Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariadau ym mhob cyfarfod **[Alexia Course i'w weithredu]**.

Deliwyd â nifer o faterion technegol perfformiad rheilffyrdd. Fodd bynnag, mae angen gweithredu yn awr i gael set o gytundebau gweithlu ar waith sy'n caniatáu i wasanaeth dibynadwy gael ei redeg yn gyson, yn enwedig ar ddydd Sul a Gwyliau Banc.

Dywedwyd wrth y Bwrdd ei bod yn dal i aros am gadarnhad Llywodraeth Cymru ynghylch caffael PTI Cymru ac o ystyried yr oedi sylweddol a brofwyd, mae risg na fydd integreiddio yn cael ei gyflawni ar gyfer mis Mawrth 2022. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Llywio TrC.

Darparwyd diweddariadau ar y metrig Amser Teithwyr a Gollwyd (PTL) diwygiedig a'r streic a ganslwyd gan staff glanhau yn dilyn cytundeb gyda'r RMT a'r fflyd rheilffordd.

Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr.

### **3b. Cyllid**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch ariannol allweddol ers y cyfarfod blaenorol. Mae'r ffocws wedi bod ar gau'r bwlch ariannu ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ynghyd â datblygu'r cais i Lywodraeth Cymru am gyllid rheilffordd COVID-19.

Mae gweithgaredd hefyd wedi cynnwys:

- diwygio cyllideb TrC Rail Ltd gan gynnwys risgiau a chyfleoedd ariannol;
- cynllunio cerbydau a thrafodaethau;
- Adroddiadau DPA gan gynnwys y cerrig milltir cynllun busnes ar gyfer 2021/22;
- cynllunio busnes a chyllidebu ar gyfer 2022/23 trwy gefnogi Llywodraeth Cymru gyda chynllunio ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â'r Rhaglen Lywodraethu;
- adolygiad strategol rheilffyrdd ac allbynnau ochr yn ochr â'r adolygiad annibynnol;
- Pullman Rail cyfnod pontio a gwahanu oddi wrth COLAS i ddod yn rhan o Grŵp TrC gan gynnwys gosod blociau adeiladu ar gyfer y dyfodol;
- potensial ar gyfer ariannu prosiectau / gweithgareddau ychwanegol o fewn y flwyddyn ariannol ynghylch unrhyw arian dros ben gan Lywodraeth Cymru;
- gweithgareddau ychwanegol gan gynnwys taliadau Grant Teithio Llesol, mentrau bysiau, PTI, Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru a chynlluniau strategol allweddol eraill ar gyfer blynyddoedd ariannol y dyfodol gan gynnwys rhaglen Trafnidiaeth Integredig y Dyfodol / rhwydwaith ffyrdd strategol; a
- Rhaglen CVL llinell gostau ddiwygiedig a ysgogwyr allweddol gan gynnwys effaith ar ERDF.

Mae tanwariant Gwariant Refeniw yn unol â'r rhagolwg yn £4.2m yn bennaf oherwydd y gwelliant yn refeniw Rheilffyrdd (£0.5m) a thanwariant parhaus yn y llinell gost (£2m) gyda'r balans oherwydd dibrisiant anariannol. Ar hyn o bryd mae refeniw rheilffyrdd ar 71% o lefelau cyn COVID a 11.5% yn teithio heb docyn (o gymharu â 9% cyn COVID). Adlewyrchir y gwelliant hwn yn y sefyllfa alldro a'r rhagolygon diweddar. Mae alldro Gwariant Refeniw wedi gostwng £18m o gymharu â'r rhagolwg blaenorol yn bennaf oherwydd rhyddhau arian wrth gefn a gwell refeniw o fewn y Rheilffyrdd.

Tanwariant Gwariant Cyfalaf hyd y rhagwelir yw £23.9m. Mae tanwariant yn ymwneud â phrosiectau a ariennir gan gyfalaf rheilffyrdd yn £16.1m naill ai oherwydd llai o weithgarwch neu oherwydd oedi. Mae alldro Gwariant Cyfalaf wedi gostwng £28m o'i gymharu â'r rhagolwg blaenorol, yn bennaf oherwydd cynlluniau diwygiedig ar gyfer Rheilffyrdd fel y trafodwyd gyda Llywodraeth Cymru.



Roedd cyfarfod diweddaraf y Bwrdd Llywio yn trafod materion yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, tâl y sector cyhoeddus, cyflenwadau cyfleustodau, perfformiad rheilffyrdd, refeniw; cerbydau a DPA.

#### **4. Sesiwn Adnoddau Dynol cyfrinachol**

#### **Rhan B - Sesiwn diweddarau ar weithrediadau**

Ymunodd Lewis Brencher, Geoff Ogden, David O'Leary, Leyton Powell, Lee Robinson, Dave Williams a Lisa Yates â'r cyfarfod.

#### **5. Diweddariad bysiau**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd nifer o ffrydiau gwaith trawsnewid bysiau gan gynnwys Tocynnau; y model masnachfreinio sy'n nodi rôl a chylch gorchwyl posibl TrC a datblygu Papur Gwyn; cysoni BES; Datblygu Rhwydwaith; a Traws Cymru.

#### **6. Adroddiad cyfathrebu**

Yn ystod y cyfnod blaenorol, cwblhawyd rhai cyhoeddiadau allweddol yn ymwneud ag ymrwymadau cyhoeddus Trafnidiaeth Cymru ar y rheilffyrdd, gan gynnwys cyhoeddi'r cynllun wedi'i ddiweddarau ar gyfer newidiadau i'r amserlen ym mis Rhagfyr 2022. Roedd hyn yn dominyddu nifer o sgysiau gyda rhanddeiliaid, ac er bod rhai sgysiau wedi bod yn anodd, mae hyn wedi'i gydbwyso â rhai gweithdai cynhyrchiol sydd wedi helpu i wella dealltwriaeth ac ymgynghori ap newydd

Mae safle brand TrC yn parhau'n gryf a chaiff ei gefnogi gan y gwaith o gyflawni'r ymgyrch adfer yn y dyfodol, y mae ei hamseriad yn parhau i fod yn ansicr.

Nododd a chroesawodd y Bwrdd yr adroddiad cyfathrebu cadarnhaol.

#### **7. Cofrestr Risg Strategol ac Adroddiad Lefel Bygythiad**

Mae'r holl risgiau o fewn TrC a TrC Rail bellach yn cael eu cofnodi yn y system rheoli risg ac eithrio risgiau Trawsnewid CVL sy'n cael eu cofnodi gan Amey Infrastructure Wales.

Mae ymgysylltu ar ailysgrifennu WelTag wedi dechrau gyda Llywodraeth Cymru sy'n awyddus i ddefnyddio arbenigedd risg Trafnidiaeth Cymru i gryfhau'r broses o nodi risg wrth ddatblygu achosion busnes.

Ar hyn o bryd mae pedwar risg ac un mater sydd wedi'u huwchgyfeirio i lefel Strategol. Cyflwynir dwy risg sy'n dod i'r amlwg er ymwybyddiaeth y Bwrdd Gweithredol / Bwrdd.

Nododd y Bwrdd y Gofrestr Risg Strategol a'r Adroddiad ar Lefel Bygythiad

#### **8. Strategaeth Gorfforaethol**

Rhodddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar ddatblygiad y Strategaeth Gorfforaethol gyda diweddariad manylach i'w gyflwyno fis nesaf.

#### **9. Cerrig milltir**

Nododd y Bwrdd y cynnydd yn erbyn cerrig milltir y cynllun busnes ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Medi 2021

## **10. Unrhyw fater arall**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran caffael PTI Cymru. Mae'r penderfyniad yn parhau i fod yn nwylo Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan y Gweinidog. Cytunodd y Bwrdd y dylid trosglwyddo'r mater i'r Bwrdd Llywio.